



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad ar ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol yn
unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Rhif achos: CSG329



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: www.comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuan o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried a ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safon 6: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	7
4	Cydymffurfiaeth â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu:	
	Asesiad a chanfyddiadau	11
	Geiriad y cam gorfodi	11
	Geiriad y cam gorfodi	12

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 28 Mawrth, 2018 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys.
- 1.2 Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Cyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Dywedodd yr achwynydd nad oedd yr Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd ac amlinellodd y canlynol fel enghreifftiau:
 - nifer o rannau sylweddol yn uniaith Saesneg;
 - y Saesneg mewn print trwm a mwy o faint na'r Gymraeg;
 - y Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg.
- 1.3 Dywedodd ei fod wedi dwyn ei gŵyn at sylw'r Cyngor am y tro cyntaf yn 2014.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.4 Ysgrifennodd fy swyddogion at y Cyngor ar 9 Ebrill, 2018 er mwyn cadarnhau ai oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano. Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor mai ef oedd yn gyfrifol ar 9 Ebrill, 2018.

Safonau perthnasol

- 1.5 Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 6

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Diwrnod gosod: 30 Mawrth, 2016

Dyletswydd i gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

- 1.6 Roedd y gŵyn hefyd yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â dau ofyniad a roddwyd eisoes i'r Cyngor mewn hysbysiadau penderfynu. Ar 2 Ionawr, 2018 cyflwynais adroddiad terfynol ymchwiliad CSG172 gan ddyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 6. Roedd yr hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau penodol i atal y methiant rhag parhau neu rhag cael ei ailadrodd.

- 1.7 Bydd yr ymchwiliad hwn hefyd yn dyfarnu a yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion perthnasol canlynol yn hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG172:

Gofyniad i gymryd camau yn unol â hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG172:

Er mwyn cydymffurfio â safon 6, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam sicrhau bod unrhyw destun Saesneg i'r perwyl o'i anfon allan yn gyhoeddus, yn cael ei anfon yn Gymraeg yn ogystal, a'i brawf ddarllen fel nad yw'r fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Roedd disgwyl i'r Cyngor weithredu'r camau gorfodi erbyn: 20 Ionawr, 2018

- 1.8 Ar 31 Ionawr, 2018 cyflwynais adroddiad terfynol ymchwiliad CSG233 gan ddyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 6. Roedd yr hysbysiad penderfynu yn cynnwys camau penodol i atal y methiant rhag parhau neu rhag cael ei ailadrodd.
- 1.9 Bydd yr ymchwiliad hwn hefyd yn dyfarnu a yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion perthnasol canlynol yn hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG233:

Gofyniad i gymryd camau yn unol â hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG233:

Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gymryd camau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth sydd yn cael ei hanfon at y cyhoedd o fewn yr adran Dreth Gyngor yn unol â gofynion safon 6.

Roedd disgwyl i'r Cyngor weithredu'r camau gorfodi erbyn: 11 Mawrth, 2018

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.10 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safon â'r gofynion uchod. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor ar 7 Mehefin, 2018.
- 1.11 Rhoddais hysbysiad o gylich gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i'r Cyngor ar 17 Gorffennaf, 2018. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 17 Gorffennaf, 2018 rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Gwybodaeth a dogfennau

1. Cadarnhewch a ydy'r Cyngor yn derbyn ac yn cytuno â honiadau'r achwynwyr.
2. Eglurwch beth oedd y drefn ar gyfer llunio a chyhoeddi biliau treth cyngor Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y cyfnod 2018/19. Os yn briodol manylwch ar unrhyw wahaniaeth rhwng y broses o'u cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3. Nodwch pa drefniadau sydd mewn lle i wirio nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn nyluniad templedi'r biliau.
4. Eglurwch pa drefniadau sydd mewn lle i wirio cywirdeb ffeithiol a ieithyddol y biliau treth cyngor gan fanylu ar wirio'r fersiynau Cymraeg neu unrhyw fersiynau sydd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.
5. Yn dilyn derbyn adroddiad terfynol Comisiynydd y Gymraeg i'w hymchwiliad CSG172, rhowch wybod am y camau a gymerwyd i sicrhau bod unrhyw destun i'r perwyl o'i anfon allan yn gyhoeddus, yn cael ei brawf ddarllen fel nad yw'r fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg yn unol â gofynion y cam gorfodi.
6. Yn dilyn derbyn dyfarniad Comisiynydd y Gymraeg i'w hymchwiliad CSG233, rhowch wybod am y camau a gymerwyd gan y Cyngor i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth sydd yn cael ei anfon at y cyhoedd o fewn yr adran Dreth Gyngor yn unol â gofynion y cam gorfodi.
7. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei hystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
8. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

- 2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan y Cyngor ar 15 Awst, 2018 drwy lythyr. Mae copïau o'r dystiolaeth ar gais drwy gais.

- 2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gefais mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

- 2.4 Roedd y Cyngor yn cytuno gyda honiad yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn wallus.
- 2.5 Cafodd swm treth y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 ei gytuno ar 21 Chwefror, 2018. Yn dilyn hynny, dywedodd y Cyngor bod staff wedi mynd ati i baratoi'r system sydd ganddo ar gyfer y gwaith bilio blynyddol. Eglurodd bod saith darn o waith bilio cyfrifiadurol yn digwydd yn flynyddol sy'n cynhyrchu ffeiliau data amrwd sy'n cynnwys data cwsmeriaid.
- 2.6 Dywedodd bod y ffeiliau data amrwd wedi eu rhoi i bartneriaid y Cyngor i'w trosi yn ddogfennau darllenadwy mewn dogfen dempled.
- 2.7 Eglurodd bod samplau o'r dogfennau wedi eu gwirio er mwyn sicrhau bod y symiau ynddynt yn gywir. Yn dilyn hynny cafodd y dogfennau eu hargraffu a'u hanfon gan gyflenwr.
- 2.8 Dywedodd bod y ddogfen dempled yn cynnwys testun dwyieithog; nid oes gweithdrefn ar wahân yn bodoli ar gyfer cynhyrchu Hysbysiad Treth Cyngor uniaith Gymraeg.
- 2.9 Dywedodd bod y ddogfen dempled wedi cael ei diweddarau yn ystod y flwyddyn er mwyn cywiro camgymeriadau a amlygwyd gan yr achwynydd a hefyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 2.10 Eglurodd bod y gwaith o wirio cynnwys y dogfennau wedi'i gyfyngu'n bennaf i sicrhau bod y wybodaeth ariannol yn gywir. Dywedodd nad oedd gweithdrefn mewn lle ar gyfer gwirio'r testun Cymraeg. Roedd y Cyngor o'r farn bod y sefyllfa hon yn annerbyniol a dywedodd bod tîm wedi'i sefydlu sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- 2.11 Dywedodd bod y tîm yn cydweithio â'r partner sy'n gyfrifol am drosi data amrwd yn ddogfennau dealladwy. Yn ôl y dystiolaeth maent wedi sefydlu'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys cyfieithiadau Cymraeg yn y gronfa ddata treth cyngor.
- 2.12 Yn dilyn cyfieithu a mewnbynnu'r wybodaeth â llaw i'r gronfa ddata treth cyngor, dywedodd y bydd y tîm yn cynnal prawf bilio. Bydd yna'n gweithio gyda'r argraffwyr i sicrhau bod y testun yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Bydd y dogfennau yn cael eu cymeradwyo ar ôl i gyfieithwyr y Cyngor eu prawf ddarllen.
- 2.13 Dywedodd y Cyngor bod 'natur statudol' yr hysbysiadau yn golygu eu bod yn cael eu gwirio'n fanwl. Eglurodd bod y gwaith gwirio 'bob amser wedi canolbwyntio ar y data ariannol' oherwydd gall gamgymeriad yn y wybodaeth hon wneud yr hysbysiad yn annilys.
- 2.14 Cafodd testun yr Hysbysiad Treth Cyngor ei wirio gan swyddog treth cyngor. Yn ôl y dystiolaeth, dim ond camgymeriadau a dynnwyd i sylw'r Cyngor gan yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru gafodd eu gwirio.
- 2.15 Dywedodd y Cyngor gan nad oedd fy ymchwiliad blaenorol (cyfeirnod CSG172) yn ymwneud yn benodol â'r Hysbysiad Treth Cyngor ni rannwyd canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw gyda'r adran treth cyngor.

- 2.16 Roed ymchwiliad CSG233 yn ymwneud â gwallau yn nogfen gŵys treth y cyngor. Eglurodd y Cyngor bod y ddogfen hon wedi'i hanfon at ei gyfieithwyr i'w gyfieithu'n 'unol â gofynion y Comisiynydd'.
- 2.17 Ni anfonwyd templed yr Hysbysiad Treth Cyngor i'w gyfieithu gan fod y Cyngor o'r farn bod y camgymeriadau a dynnwyd i'w sylw gan yr achwynydd a'r Ombwdsmon wedi'u cywiro. Dywedodd y Cyngor ei fod yn derbyn 'yn llwyr' er gwaethaf y gwaith cywiro 'bod yna wallau ieithyddol pellach nad oedd wedi'u nodi na'u cywiro mewn pryd ar gyfer bilio blynyddol 2018/19'.
- 2.18 Mewn ymateb i'r alwad am unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach all fod yn berthnasol i'r ymchwiliad, dywedodd y Cyngor ei fod yn derbyn nad oedd holl ddogfennau treth y Cyngor wedi eu gwirio er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Eglurodd nad cam bwriadol oedd hwn. Yn wreiddiol, roedd o'r farn bod cam gorfodi ymchwiliad CSG233 yn rhoi pwyslais ar gywiro'r gwallau yn nogfen gŵys treth y cyngor gan mai'r ddogfen honno oedd sail yr ymchwiliad. Fe wnaeth y Cyngor gydnabod bod y cam gorfodi yn 'nodi'n glir y dylai holl ddogfennau treth y cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg' (pwyslais yr awdur).
- 2.19 Ymddiheurodd y Cyngor am y dryswch dros gamddehongli gofyniad cam gorfodi ymchwiliad CSG233.
- 2.20 Dywedodd ei fod wedi bod yn cydweithio gyda'r cyfieithwyr i wirio holl ddogfennaeth treth y cyngor a'i gywiro'n ôl y galw. Eglurodd bod y gwaith hwn ar fynd a'i fod yn debygol o gymryd 'cryn amser'. Dywedodd bod oddeutu 45 dogfen wedi'u hanfon i'w gwirio hyd yma.
- 2.21 Eglurodd y Cyngor fod y data trafodaethol (sy'n cael ei ddisgrifio ganddo fel 'negeseuon pwrpasol yn ymwneud ag amgylchiadau unigol cwsmer') ar yr Hysbysiad Treth Cyngor yn cael ei gynhyrchu yn Saesneg. Dyma, yn ôl yr ymateb, oedd un o brif ffactorau'r gŵyn:
- Mae'r Cyngor yn cyfaddef nad yw ei system gyfrifiadurol yn cynnwys cyfieithiadau Cymraeg uniongyrchol ar gyfer nifer sylweddol o negeseuon pwrpasol o fewn y ffeiliau data amrwd. Mae'r Cyngor wedi dibynnu ar gael ei allbwn gwybodaeth statig yn ddwyieithog, gyda'r data trafodaethol yn Saesneg yn unig.
- 2.22 Dywedodd y Cyngor ei fod yn derbyn nad yw'r sefyllfa'n dderbyniol. Yn ôl y dystiolaeth, mae adnoddau wedi eu clustnodi ar gyfer cyfieithu'r data trafodaethol hwn i'r Gymraeg. Eglurodd y byddai'n cymryd amser iddo 'nodi, cyfieithu, mewnbynnu a phrofi'r ffeiliau testun newydd' ond ei fod wedi ymrwymo i gywiro'r Hysbysiad Treth Cyngor mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.
- 2.23 Dywedodd y Cyngor bod 'camau adferol' wedi eu cymryd yn achos yr achwynydd, ynghyd ag unigolion eraill a gwynodd am yr un mater; cynhyrchwyd hysbysiadau pwrpasol ar eu cyfer. Dywedodd bod y dogfennau pwrpasol hyn ar gael i unrhyw gwsmer arall sydd angen un.
- 2.24 Gofynnodd y Cyngor i mi roi ystyriaeth i'r dogfennau canlynol a gyflwynwyd i mi fel rhan o'i ymateb i hysbysiad dystiolaeth ymchwiliad arall (cyfeirnod CSG237). Roedd yr ymchwiliad hwnnw'n ymwneud â defnydd y Cyngor o'r Gymraeg ar arwyddion:

- Communications toolkit
- Safonau Iaith Gymraeg – beth sydd angen i chi wybod
- Policy to promote the use of the Welsh in the workplace
- Welsh language standards FAQs for SAM
- Welsh - procurement guidelines
- Gwybodaeth am SAM
- Welsh Cym Friday Bulletin
- Safonau'r Gymraeg – Cwestiynau Cyffredin
- Polisi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Signs info Arwyddion ar SAM
- Welsh Language awareness (Power point)

2.25 O'r dogfennau hyn ystyriais fod y cyfarwyddyd canlynol mewn perthynas â gohebiaeth yn y ddogfen ganllaw i staff 'Safonau Iaith Gymraeg - beth sydd angen i chi wybod' yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn:

Os byddwch yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg, rhaid iddyn nhw gael eu trin yn gyfartal a chynnwys yn union yr un wybodaeth yn y ddwy iaith, gan gynnwys llofnodion a manylion cyswllt.

3 Cydymffurfiaeth â safon 6: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 6

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Diwrnod gosod: 30 Mawrth, 2016

Dehongliadau

- 3.2 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, at. 1, rhan 3, para. 29 yn dehongli 'peidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' fel hyn:

Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg [...] mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd.

Safonau dibynnol

- 3.3 Nid oes unrhyw safon arall yn ddibynnol ar safon 6.

Gofynion y safon

- 3.4 Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw'n trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ac mae'n nodi enghraifft o drin y Gymraeg yn llai ffafriol yn y cyswllt hwn.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 3.5 At ddibenion yr ymchwiliad hwn rwyf yn ystyried yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ohebiaeth. Mae'n ddogfen sy'n cael ei hanfon drwy'r post gan y Cyngor at dderbynnydd penodol. Mae disgwyl i'r derbynnydd ymateb i'r Hysbysiad Treth Cyngor trwy dalu'r swm sy'n ddyledus arno.
- 3.6 Mae'r safon yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i'r Cyngor beidio â thrin fersiynau Cymraeg o ohebiaeth yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg. Mae'r Hysbysiad Treth Cyngor yn ddogfen ddwyieithog sy'n ymgorffori'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn un ddogfen.
- 3.7 Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a gefais yng ngoleuni dehongliad rhan 3, paragraff 29 o Reoliadau'r Gymraeg o 'beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Rwyf o'r farn bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran golwg y deunydd. Yn gyntaf, mae'n amlwg i mi fod y testun Saesneg yn ymddangos yn fwy blaenllaw. Mae naw enghraifft yn yr Hysbysiad Treth Cyngor o destun Saesneg sydd naill ai mewn ffont mwy na'r Gymraeg neu mewn ffont trwm tra bo'r Gymraeg gyfatebol mewn ffont arferol neu italig.
- 3.8 Yn ail, mae gwybodaeth ddylai ymddangos yn Gymraeg ar goll. Mae pedwar enghraifft o destun sy'n ymddangos yn Saesneg yn unig sef:
- i. dyddiad yr hysbysiad;
 - ii. yr is-bennawd; 'Reason for bil: Annual';
 - iii. manylion y cyfnod sy'n berthnasol i'r bil; a
 - iv. manylion sut i dalu'r bil.
- 3.9 Mae hyn yn groes i ganllawiau'r Cyngor i'w staff, 'Safonau Iaith Gymraeg - beth sydd angen i chi wybod', sy'n datgan yn glir rhaid '[c]ynnwys yn union yr un wybodaeth yn y ddwy iaith' mewn gohebiaeth.
- 3.10 Rwyf wedi ystyried yn helaeth bryder yr achwynydd bod testun Saesneg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn rhagflaenu'r Gymraeg. Rwyf yn cydnabod safbwynt yr achwynydd sef bod gosod testun Saesneg o flaen y Gymraeg yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin llai ffafriol. Rwyf hefyd yn cydnabod bod achwynwyr eraill (sydd hefyd wedi cwyno am yr un mater) o'r un farn, ac yn deall bod gan yr unigolion hyn deimladau cryf ynglŷn ag arwyddocâd a phwysigrwydd gosod yr iaith Gymraeg yn gyntaf.
- 3.11 Yn fy marn gwerthusol i ni allaf ddyfarnu bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn torri'r safon yn seiliedig *yn unig* ar y ffaith bod y Saesneg yn cael ei gosod yn gyntaf. Mae hyn oherwydd nad yw'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod un iaith o flaen y llall er mwyn cydymffurfio.
- 3.12 Wrth gyrraedd y safbwynt hwn rhoddais ystyriaeth i'r egwyddor, a sefydlwyd gan Dribiwnlys y Gymraeg yn achos TyG/WLC/17/2, bod gennyf hawl i ystyried lleoliad y testun yn y Gymraeg yn gymharol â'r testun yn y Saesneg wrth bwysu a mesur a oes tystiolaeth o fethiant. Yn achos yr Hysbysiad Treth Cyngor, mae'r ddwy iaith wedi'u gosod yn agos iawn at ei gilydd fel bod y llygad yn eu gweld ar yr un pryd bron. (Ac eithrio, wrth gwrs, yr enghreifftiau uchod lle mae gwybodaeth Gymraeg ar goll.) Mae'r

testun hefyd yn cael ei gyfleu mewn modd cryno, dim mwy nag ychydig eiriau ar y tro. Nid yw'r darllenydd Cymraeg felly yn profi'r anfantais o orfod edrych am y testun Cymraeg neu ddarllen trwy linellau o destun Saesneg er mwyn cyrraedd at y Gymraeg. Am y rhesymau hyn nid wyf yn credu bod lleoliad y testun Cymraeg, o gymharu a'r Saesneg, *ynddo'i hun* yn golygu bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn methu â chydymffurfio â'r safon.

- 3.13 Mae'r safbwynt hwn yn berthnasol i'r achos hwn yn unig. Byddaf yn ystyried a yw lleoliad testun yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin llai ffafriol na'r Saesneg fesul achos wrth bwysu a mesur tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau.
- 3.14 Rwyf o'r farn bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg am y rhesymau bod y Saesneg yn ymddangos yn fwy blaenllaw a bod gwybodaeth y dylai ymddangos ynddo yn Gymraeg ar goll. Mae'r Cyngor yn derbyn hyn. Mae adnoddau wedi'u clustnodi ganddo ar gyfer cyfieithu'r hyn mae'n ei alw'n 'ddata trafodaethol' i'r Gymraeg ac ymrwymiad wedi'i wneud i gywiro'r ddogfen mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Rwyf ar ddeall mai'r hyn a olygir gan 'ddata trafodaethol' yw gwybodaeth sy'n berthnasol i dderbynnydd yr Hysbysiad Treth Cyngor treth cyngor yn unig. Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos bod gwallau i'w gweld yn y wybodaeth nad yw'n 'ddata trafodaethol', hynny yw gwybodaeth sy'n ymddangos yr un fath ar bob Hysbysiad Treth Cyngor. Gan fod enghreifftiau o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg i'w gweld ym mhob rhan o'r Hysbysiad Treth Cyngor cynghoraf y Cyngor i fod yn wylidwrus o ganolbwyntio ar gywiro'r data trafodaethol yn unig.

Canfyddiadau

- 3.15 Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
- 3.16 Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg.
- 3.17 Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 6 ai peidio

- 3.18 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 6 trwy lunio gohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg.

Gweithredu pellach

- 3.19 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 3.20 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 6, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

3.21 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 6:

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6.

Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

4 Cydymffurfiaeth â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu: Asesiad a chanfyddiadau

Geiriad y cam gorfodi

- 4.1 Dyma'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG172. Roedd disgwyl i'r Cyngor ei weithredu erbyn 20 Ionawr, 2018:

Er mwyn cydymffurfio â safon 6, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod unrhyw destun Saesneg i'r perwyl o'i anfon allan yn gyhoeddus, yn cael ei anfon yn Gymraeg yn ogystal, a'i brawf ddarllen fel nad yw'r fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r cam gorfodi

- 4.2 Mae'r cam gorfodi yn ymwneud â gohebiaeth sy'n cael ei llunio a'i hanfon i'r cyhoedd gan y Cyngor. Mae'n gofyn i'r Cyngor sicrhau, erbyn 20 Ionawr, 2018, bod unrhyw destun Saesneg yn yr ohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
- 4.3 Gan nad oedd ymchwiliad CSG172 yn ymhél â methiant gan yr adran Dreth Cyngor, ni wnaeth y Cyngor rannu manylion y cam gorfodi gyda'r adran.
- 4.4 Mae'r ymchwiliad wedi dangos bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran golwg y deunydd. Mae hefyd wedi dangos bod testun yn yr Hysbysiad Treth Cyngor wedi ei anfon yn Saesneg heb destun Cymraeg cyfatebol.
- 4.5 Yn ei dystiolaeth i mi mae'r Cyngor wedi cydnabod na chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen yn llawn. Dywedodd bod testun yr Hysbysiad Treth Cyngor wedi ei wirio gan swyddog treth cyngor ac mai camgymeriadau a amlygwyd gan yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ran yr achwynydd yn unig gafodd eu cywiro. Mae'n destun pryder bod y Cyngor wedi methu ag adnabod camgymeriadau pellach yn y ddogfen ac yn awgrymu methiant sylfaenol yn ei drefniadau prawf ddarllen.
- 4.6 Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd cynhwysfawr gan berson cymwys a fyddai wedi adnabod yr enghreifftiau ble naill ai oedd y Gymraeg ar goll neu'n ymddangos yn llai blaenllaw na'r Saesneg. Byddai hyn, yn fy marn i, yn gam disgwylidig o ystyried bod gwallau ieithyddol wedi eu hadnabod yn y hysbysiad yn flaenorol.

Canfyddiadau

- 4.7 Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg

yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu.

- 4.8 Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg.
- 4.9 Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â cham gorfodi ymchwiliad CSG172 ai peidio

- 4.10 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio a'r cam gorfodi ar y sail bod testun yn ei Hysbysiad Treth Cyngor wedi ei anfon yn Saesneg yn unig ac na chafodd yr hysbysiad ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg.

Gweithredu pellach

- 4.11 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 4.12 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi ymchwiliad CSG172 byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.
- 4.13 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan yn gyhoeddus at nifer o dderbynyddion yn ddigonol.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Geiriad y cam gorfodi

- 4.14 Dyma'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG233. Roedd disgwyl i'r Cyngor ei weithredu erbyn 11 Mawrth, 2018:

Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth sydd yn cael ei hanfon at y cyhoedd o fewn yr adran Dreth Gyngor yn unol â gofynion safon 6.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r cam gorfodi

- 4.15 Mae'r cam gorfodi yn ymwneud yn benodol â gohebiaeth sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Mae'n gofyn i'r Cyngor gymryd camau, cyn 11 Mawrth, 2018, i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon i'r cyhoedd gan yr adran Dreth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6.
- 4.16 Gan mai sail ymchwiliad CSG233 oedd gwallau yn nogfen gŵys treth y cyngor, ni ystyriwyd perthnasedd y cam gorfodi i'r Hysbysiad Treth Cyngor. Mae'n destun pryder sylweddol i mi fod y Cyngor wedi methu â chymhwyso'r cam gorfodi hwn, oedd yn ymwneud yn benodol iawn â gohebiaeth gan yr adran Dreth Gyngor, i'r Hysbysiad Treth Cyngor; darn arwyddocaol o ohebiaeth sy'n cael ei hanfon yn flynyddol gan yr adran i drigolion i sir.
- 4.17 Fel yr wyf eisoes wedi nodi, mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran golwg y deunydd. Ni chafodd enghreifftiau ble naill ai oedd y Gymraeg ar goll neu'n ymddangos yn llai blaenllaw na'r Saesneg eu hadnabod na'u cywiro. Rwy'n ystyried felly bod gwallau ieithyddol yn yr ohebiaeth ac na chymrwyd camau digonol gan y Cyngor i osgoi hynny.

Canfyddiadau

- 4.18 Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor.
- 4.19 Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19.
- 4.20 Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â cham gorfodi ymchwiliad CSG233 ai peidio

- 4.21 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r cam gorfodi ar y sail bod gwallau ieithyddol yn yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19, gohebiaeth a anfonwyd gan yr adran Dreth Cyngor.

Gweithredu pellach

- 4.22 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant. Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi ymchwiliad CSG233 ni fyddaf yn gweithredu ymhellach. Rwyf o'r farn bod y camau gorfodi yr wyf eisoes wedi eu rhoi i'r Cyngor yn ddigonol ar gyfer atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Rhif achos: CSG329
Dyddiad: 24 Ionawr, 2019

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg) er mwyn dyfarnu a yw Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) wedi methu â chydymffurfio ag un o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ogystal â gofynion mewn hysbysiad penderfynu.

Mae'r safonau a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 6

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Diwrnod gosod: 30 Mawrth, 2016

Fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 6.

Sail fy nyfarniad yw bod y Cyngor, trwy lunio gohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg, wedi methu â chydymffurfio â safon 6.

Mae'r gofynion mewn hysbysiad penderfynu oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Gofyniad i gymryd camau yn unol â hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG172

Er mwyn cydymffurfio â safon 6, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod unrhyw destun Saesneg i'r perwyl o'i anfon allan yn gyhoeddus, yn cael ei anfon yn Gymraeg yn ogystal, a'i brawf ddarllen fel nad yw'r fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Dyddiad gweithredu: Erbyn 20 Ionawr, 2018

Fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi methu â'r gofyniad uchod.

Sail fy nyfarniad yw bod testun yn yr Hysbysiad Treth Cyngor wedi ei anfon yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg.

Gofyniad i gymryd camau yn unol â hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG233

Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth sydd yn cael ei hanfon at y cyhoedd o fewn yr adran Dreth Gyngor yn unol â gofynion safon 6.

Dyddiad gweithredu: 11 Mawrth, 2018

Fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi methu â'r gofyniad uchod.

Sail fy nyfarniad yw bod gwallau ieithyddol yn yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19, gohebiaeth a anfonwyd gan yr adran Dreth Cyngor.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 6:

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6.

Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi ymchwiliad CSG172:

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant yn unol ag adran 79 Mesur y Gymraeg, gall y Cyngor apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Canlyniadau peidio â chydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu

Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o fewn yr hysbysiad penderfynu hwn i weithredu ymhellach, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio.